



## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

1 Ebrill 2022

### Cofnodion

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Cyng. Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Emil Evans (EE)	Dirprwy Brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Eirian Evans (EE)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Tim Morgan (TM)	Uwcharolygydd	Heddlu De Cymru
Marie Davies (MD)	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cyng. Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
<b>Hefyd yn Bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Mike Ingram (MI)	Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu	Cyngor Bro Morgannwg
Tom Dodsworth (TD)	Cydgysylltydd Adsefydlu Rhanbarthol	Cyngor Bro Morgannwg
Tom Porter (TP)	Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg

Wendy Gurney	Uwcharolygydd	Heddlu De Cymru
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Bro Morgannwg
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Eitemau ar yr Agenda	Camau Gweithredu
<p><b>1. Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Estynnodd NM groeso i bawb i gyfarfod y BGC.</p>	
<p><b>2. Ymddiheuriadau</b></p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p><b>3. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 3 Rhagfyr 2021</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhoi adlewyrchiad cywir a gwir o'r cyfarfod.</p>	
<p><b>4. Wcráin</b></p> <p>Cyflwynodd NM MI, Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg ac Uwch Swyddog Adrodd ar gyfer yr ymateb i'r argyfwng ffoaduriaid a oedd yn deillio o'r Rhyfel yn Wcráin. Cyflwynodd NM hefyd TD, Cydgysylltydd Adsefydlu Rhanbarthol Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, sydd wedi arwain y waith o adsefydlu ffoaduriaid o Syria ac Affganistan. Eglurwyd bod yr Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio'n gyflym i gefnogi'r ymateb, ac roedd mwy o fanylion yn cael eu rhannu bob dydd. Mae Llywodraeth y DU wedi creu dau lwybr i'r DU ar gyfer gwladolion Wcráin. Y cyntaf yw'r cynllun fisa Teulu a Theulu Estynedig sy'n galluogi perthnasau gwladolion o Brydain, unigolion sydd wedi setlo yn y DU a rhai unigolion eraill i ddod i'r DU, neu aros yn y DU. Yr ail yw'r cynllun Cartrefi i Wcráin a lansiwyd ar 14 Mawrth. Mae hyn yn galluogi'r rhai sy'n ffoi o Wcráin nad oes ganddynt gysylltiadau teuluol â'r DU i gael eu nodd gan unigolion neu gan Lywodraeth Cymru. Bydd noddwyr yn cynnig llety i ffoaduriaid yn eu cartrefi eu hunain am hyd at chwe mis, a rhoddir fisas yn seiliedig ar y sicrwydd o lety am chwe mis o leiaf. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n ddau gam. Mae Cam Un ar agor i unigolion enwebedig y mae noddwyr yn eu hadnabod, a Cham Dau ar agor i achosion heb eu paru, gan ddefnyddio proses baru trydydd sector.</p> <p>Disgwylir y bydd mwy na 200,000 o ffoaduriaid yn cyrraedd y DU drwy'r cynllun nodd. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl derbyn cyfran gymesur o 5% o'r nifer hwn, sydd gyfwerth â 10,000 o bobl. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu cynllun 'uwch-noddwr' a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Nod y cynllun uwch-noddwr yw darparu llety i</p>	

1,000 o bobl am hyd at dri mis mewn 'canolfannau croeso' ledled Cymru, gyda'r bwriad i symud preswylwyr naill ai i lety parhaol neu i lety cynhaliwr/noddwr o fewn chwe mis.

Mae gan Awdurdodau Lleol nifer o gyfrifoldebau sy'n deillio o gynllun Cartrefi i Wcráin, gan gynnwys: Gwiriadau eiddo, gwiriadau DBS ar gyfer noddwyr, diogelu, cymorth cofleidiol, addysg, taliad diolch o £350 i noddwyr (fesul cartref), taliad arian parod o £200 i ffoaduriaid (fesul unigolyn) a chefnogi mynediad i Ganolfannau Gwaith a chofrestru ar gyfer Credyd Cynhwysol. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau uniongyrchol hyn, ceir hefyd gyfrifoldebau i sefydlu cyraeddfannau mewn pyrth mynediad neilltuol ledled Cymru i gefnogi unrhyw anghenion byrdymor wrth gyrraedd. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cwrdd a chyfarch sylfaenol a chymorth dyngarol ar fyrder, gan gynnwys cymorth iechyd a mân arian parod. O'r cyraeddfannau hyn ceir cyfrifoldeb i helpu'r ffoaduriaid i deithio ymlaen i Ganolfannau Croeso ac at noddwyr preifat.

Mae bodolaeth dau gynllun gwahanol yn creu risg o system dwy haen. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gymorth ariannol o dan y cynllun teuluol - dim cymorth ariannol ar gael i unigolion nac i Awdurdodau Lleol. Mewn cymhariaeth, drwy gynllun Cartrefi i Wcráin ceir dyraniad o £350 y mis i bob aelwyd sy'n noddi a dyraniad o £10,500 fesul unigolyn i Awdurdodau Lleol allu rhoi cymorth, a dyraniad o £3,000 i gefnogi addysg y blynyddoedd cynnar, £6,500 ar gyfer plant cynradd a £8,755 ar gyfer plant uwchradd. Fodd bynnag, nid yw'r dyraniad hwn i Awdurdodau Lleol, fodd bynnag, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw gostau i'r gwasanaethau iechyd yn sgil cyrhaeddiad y ffoaduriaid.

Er mwyn sicrhau bod paratodau wedi'u gwneud i groesawu'r ffoaduriaid, mae cynllun cyflawni rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn sicrhau bod tîm penodol o weithwyr cymorth ffoaduriaid ym mhob ardal Awdurdod Lleol, ac y bydd y swyddogion hyn yn darparu cymorth ar unwaith i letywyr a chymorth cofleidiol i ffoaduriaid, gan gynnal gwiriadau cyn cyrraedd ac ar ôl cyrraedd, a phob gweithiwr yn cael llwyth achosion cychwynnol o 10 teulu y byddant yn eu helpu gyda materion fel derbyn budd-daliadau, cyfrifon banc a chyflogaeth. Mae Cyngor Caerdydd yn sefydlu canolfan gyswllt i gefnogi'r cynlluniau ar gyfer Cymru gyfan, a bydd yn gweithredu o 8am-8pm o wythnos nesaf ymlaen.

Esboniodd TD y disgwylir y bydd cydweithwyr y BGC yn profi nifer o wahanol enghreifftiau o bwysau ar wasanaethau. I'r gwasanaeth iechyd, gallai pwysau gynnwys asesiadau cychwynnol a sgrinio anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys darpariaeth iechyd meddwl yn gysylltiedig â thrawma. I'r Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y pwysau'n cynnwys cynnal gwiriadau DBS a gweithdrefnau diogelu a lles. I'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân, bydd y pwysau'n cynnwys rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch eiddo a diogelwch personol ffoaduriaid, yn enwedig mewn canolfannau Croeso. Dywedodd MI fod y pwysau hyn yn dod i'r amlwg ar adeg pan fo gwasanaethau tai'n dal i reoli effeithiau pwysau cynyddol ar dimau digartrefedd yn sgil y pandemig, gyda thros 200 o bobl yn dal mewn llety dros dro ym Mro Morgannwg. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch cyfleoedd i gynyddu'r opsiynau tai sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio tai modiwlaid byr-dymor ac opsiwn tymor hwy yn y sector preifat. Byddai hyn yn galluogi gwasanaethau i fodloni unrhyw ofynion os ceir unrhyw dor-perthynas ac y bydd yr Awdurdod Lleol yn dod yn gyfrifol am gartrefu ffoaduriaid.

Eglurodd MI y bu awgrym y dylid ehangu cyfarfodydd Uwch Swyddogion Adrodd rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gynnwys cydweithwyr iechyd, er mwyn trafod anghysondeb o ran yr adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth iechyd. Awgrymodd FK y dylid

<p>estyn y gwahoddiadau hyn i brif weithredwyr y byrddau iechyd. Eglurwyd bod uwch weithwyr iechyd yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru ddwywaith yr wythnos, a bod y cynlluniau sydd ar waith yn debyg i'r cynlluniau ar gyfer y cynllun adsefydlu ffoaduriaid o Affganistan. Mae gan yr Wcrain niferoedd uwch o achosion TB, HIV ac ymwrthedd microbaidd na'r DU ac felly mae canllawiau wedi'u cyhoeddi i fyrddau iechyd a gofal sylfaenol. Anogir teuluoedd sy'n cael llety i gofrestru gyda meddygon teulu lleol, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw salwch meddwl fel Anhwylder Straen Ôl-drawmatig nad yw o reidrwydd yn ymddangos nes i 6 mis fynd heibio.</p> <p>Nododd TM nad oedd unrhyw bryderon ar hyn o bryd am brotestiadau ynghylch cyrhaeddiad ffoaduriaid yng Nghaerdydd ac ym Mro Morgannwg. Sicrhodd TM y partneriaid fod prosesau wedi'u hen sefydlu i sicrhau bod ffoaduriaid yn cael eu diogelu, i atal caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, a bod gweithdrefnau da iawn ar waith. Dywedodd MI fod problem ar hyn o bryd o ran cydgysylltu unrhyw gymorth sy'n cael ei gynnig. Gobeithir y gellir gweithio gyda chydweithwyr y trydydd sector i adolygu cynigion lleol. Ceir angen arbennig am siaradwyr Rwsieg neu Wcreineg yn lleol. Nododd MC y gallai Cynghorau Tref a Chymuned hefyd gynnig dull o gydgyssylltu cymorth yn lleol.</p> <p>Y cyflwyniad a gafwyd i gyd-fynd â'r eitem hon i gael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd.</p>	<b>HM</b>
<p><b>5. Diweddariad COVID-19</b></p> <p>Eglurodd FK fod strategaeth newydd wedi'i datblygu i fwrw ymlaen â'r ymateb i COVID-19 yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg o'r enw 'Law yn Llaw at Ddyfodol Mwy Diogel'. Nodwyd bod cyfraddau heintio yn parhau i fod yn uwch ym Mro Morgannwg nag mewn ardaloedd eraill ledled Cymru, gyda'r cyfraddau ar eu huchaf ymhlith grwpiau o oedolion. Rydym wedi gweld hyn yn cael ei adlewyrchu mewn lleoliadau gofal iechyd i raddau; fodd bynnag, cyd-ddigwyddiad yw'r rhan fwyaf o'r achosion, gyda'r cleifion yn mynd i leoliadau gofal iechyd i drafod problemau gwahanol.</p> <p>Mae newidiadau rheoleiddio, newid mewn ymddygiad a dyfodiad amrywiolyn mwy heintus wedi achosi cynnydd mewn achosion. Mae'r pwyslais bellach yn symud tuag at ddiogelu'r rhai mewn lleoliadau mwy agored i niwed. Mae gweithdrefnau profi, olrhain a diogelu bellach yn symud tuag at system gwylidwraeth sentinel a fydd yn canolbwyntio ar adnabod unrhyw amrywiolion newydd a allai achosi niwed.</p> <p>Mae'r rhaglen frechu barhaus yn mynd rhagddi'n dda, gyda chynllun brechiadau atgyfnerthu'r gwanwyn yn cael ei roi ar waith drwy gartrefi gofal, wedyn ymhlith grwpiau 75+ oed a'r rhai sy'n imiwnoatiedig. Yn dilyn hyn, ceir brechiadau atgyfnerthu i rai dan 5 oed sy'n wynebu risg, ac i blant 5-11 oed nad ydynt yn wynebu risg. Mae brechiad atgyfnerthu wedi'i gynllunio ar gyfer yr hydref i bobl dros eu hanner cant a grwpiau sy'n agored i niwed.</p> <p>Gofynnodd NM a oedd cynlluniau o hyd i gau Canolfan Brechu Torfol Glannau'r Bae ac a fydd canolfannau profi PCR yn aros ar agor. Eglurodd FK fod canolfannau profi PCR lleol yn cael eu comisiynu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Polisi llywodraeth y DU bellach yw cau'r canolfannau profi hyn. Bydd profi'n cael ei gadw'n lleol i rai sy'n wynebu risg arbennig o uchel. Bydd rhai sy'n gymwys dros amser yn gallu derbyn profion drwy'r cynllun profi gartref.</p>	

<p><b>6. Y Diweddaraf am y Siarter Teithio Iach</b></p> <p>Rhoddodd TP y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am Siarter Teithio Iach y BGC yr oedd holl bartneriaid y BGC wedi'i llofnodi ym mis Hydref 2019. Sefydlwyd y siarter i greu darlun cyfannol ar y system drafndiaeth ac i annog y defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy ac iach ar draws sefydliadau partner. Bu cynnydd da o ran gweithredu ymrwymadau'r siarter, er i'r pandemig effeithio ar ei gweithrediad.</p> <p>Y dyddiad cau ar gyfer gweithredu ymrwymadau'r siarter a'r camau i gyflawni'r ymrwymadau hynny yw mis Hydref 2022. Dywedodd TP y byddai'n fuddiol pe bai'r Bwrdd yn ailymrwymo i fodloni'r dyddiad terfyn hwn, gan ailbwsleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â theithio a chysylltiadau â iechyd a'r newid hinsawdd, fel y mae'r sylfaen dystiolaeth gynyddol yn ei gefnogi.</p> <p>Mae ail siarter wedi cael ei llunio sy'n gosod cyfres o ymrwymadau mwy heriol, ac ar ôl bodloni ymrwymadau'r siarter gyntaf, byddai'n dda i bartneriaid y BGC ystyried ac ymrwymo i'r ail siarter.</p> <p>Dywedodd ME ei fod yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd drwy'r fforwm hwn. Mae CNC yn ystyried bod ei ymagwedd yn esiampl i'w ddilyn, ond mae angen gwell cyfathrebu'n gysylltiedig â'r materion hyn, yn enwedig y manteision i lesiant meddyliol a chorfforol. Mae prosiect ar y gweill yn CNC ar hyn o bryd i ailwampio gwaith yn gysylltiedig ag ymrwymadau inni fynd i'r afael â'r heriau hyn. Nododd TP rôl CNC o ran hyrwyddo ymrwymadau'r siarter a bod gwaith ar y gweill i adnewyddu pecyn cymorth cyfathrebu'r siarter a fydd yn rhoi tystiolaeth bellach i bartneriaid i rannu manteision teithio llesol â chydweithwyr.</p> <p>Dywedodd NM y byddai gwaith i gydgyssylltu ymrwymo ag ail lefel y siarter yn cael ei drefnu a'i gynnwys ar agendâu nesaf y BGC, a byddai copi o'r siarter newydd yn cael ei rannu â'r Bwrdd.</p>	<p><b>HM/TP</b></p>
<p><b>7. Cymeradwyo'r Asesiad Llesiant</b></p> <p>Gofynnodd HM i'r BGC gymeradwyo'n ffurfiol yr Asesiad Llesiant a rannwyd â phartneriaid ym mis Mawrth gyda'r adborth a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr Asesiad wedi cael ei ddiwygio'n unol â'r adborth hwn, a'r adborth a gafwyd gan bartneriaid. Diolchodd FK i dîm Strategaeth a Phartneriaeth y Cyngor am eu gwaith yn datblygu'r Asesiad Llesiant sy'n amlygu'r prif faterion y bydd angen eu hadlewyrchu yn y Cynllun Llesiant. Nododd ME ei fod yn gwerthfawrogi'r ymagwedd ar y cyd a fabwysiadwyd i ddatblygu'r Cynllun Llesiant. Roedd hynny'n golygu bod partneriaid yn cael eu cynnwys drwy gydol y gwaith o'i ddatblygu.</p> <p>Cymeradwywyd yr Asesiad Llesiant gan y BGC a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y BGC.</p>	<p><b>HM</b></p>
<p><b>8. Trafodaeth ar y cynllun llesiant</b></p> <p>Rhoddodd TB gyflwyniad ar ddatblygiad y Cynllun Llesiant. Eglurwyd bod yn rhaid i'r Cynllun adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd drwy'r Asesiad Llesiant, gan fynd i'r afael â'r prif themâu a nodwyd yn yr Asesiad yn arbennig. Esboniodd HM nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer creu Cynlluniau Llesiant wedi newid, ac mai pwrpas y Cynllun yw nodi sut mae'r bwrdd yn bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Gwneir hynny drwy osod amcanion lleol a fydd yn</p>	

sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib gan y bwrdd er mwyn cyflawni'r nodau llesiant yn ei ardal a'r camau y mae'n cynnig eu cymryd i gyrraedd y nodau hynny. Gall aelodau statudol gymryd camau'n unigol, neu gymryd camau ar y cyd fel y BGC (neu drwy wahanol gyfuniadau o sefydliadau), i gyflawni amcanion, er enghraifft y gwaith a ddatblygwyd drwy Siarter Hinsawdd y BGC. Rhaid i'r BGC ofyn cyngor Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynghylch sut i gymryd camau i gyflawni'r amcanion a osodwyd, mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy. Mae'n rhaid i'r BGC hefyd weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned sy'n bodloni'r meini prawf a osodir yn y Ddeddf ac y bydd yn ofynnol iddynt gyflawni'r amcanion a osodir yn y Cynllun.

Yn ogystal â'r canllawiau, ceir nifer o ddisgwyliadau y mae'n rhaid eu bodloni drwy'r Cynllun. Dyma nhw: gwaith ar dueddiadau'r dyfodol, cynnwys y cyhoedd yn weithredol, ymwreiddio yn y pum ffordd o weithio ac archwilio cysylltiadau â chynlluniau eraill.

Eglurodd TB fod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gyda BGC Caerdydd a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg i ystyried aliniad y cynlluniau sy'n cael eu datblygu gan y tri Bwrdd. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu hadrodd i'r BGC maes o law. Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â chydweithwyr o CNC i gynnal gweithdy ar y dyfodol a fydd cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun. Y ffocws a awgrymwyd ar gyfer y gweithdy hwn yw'r argyfwng costau byw.

Amlinellodd HM yr amserlen amodol ar gyfer y Cynllun. Eglurwyd y byddai'r amcanion drafft yn cael eu datblygu ym mis Mai a mis Mehefin cyn cymeradwyo'r Amcanion i'w cyflwyno i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (FGC) ym mis Mehefin fel bo modd cynnal 14 wythnos o ymgynghoriad â'r Comisiynydd.

Rhwng mis Mehefin a mis Medi bydd gwaith yn cael ei gyflawni i gasglu gwybodaeth gan bartneriaid, i gyflawni gwaith ymgysylltu, i gynnal gweithdy'r dyfodol ac i ddrafftio'r Cynllun. Ym mis Medi, bydd y BGC yn cyfarfod i ystyried adborth gan y Comisiynydd a'r cynllun drafft cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad. Bydd ymgynghoriad 12 wythnos statudol ar y Cynllun yn cael ei gynnal rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr 2023. Bydd angen cymeradwyo'r Cynllun terfynol yng nghyfarfodydd y partneriaid statudol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Mawrth – Mai 2023.

Cyflwynodd HM dri o amcanion y drafft cychwynnol, sy'n cynnwys: Bro sy'n Fwy Cydnerth a Gwyrdd, Bro sy'n Fwy Cyfartal a Chysylltiedig a Bro sy'n Fwy Iach a Gweithgar. Mae'r rhain wedi'u cynnig am eu bod yn creu cysylltiadau â nodau llesiant cenedlaethol Cymru ac yn adlewyrchu nifer o'r prif ffrydiau gwaith presennol sy'n cael eu datblygu gan y BGC a'r prif themâu gwaith a amlygwyd gan yr Asesiad Llesiant. Bydd yr Amcanion hyn hefyd yn galluogi ffrydiau gwaith BGC i gyflawni yn erbyn amcanion lluosog yn hytrach na chyflawni'n llinol.

Diolchodd FK i TB a HM am fynegi'r her o ddatblygu Cynllun Llesiant y BGC ac roedd yn croesawu'r gwaith a gyflawnwyd ar y cyd gan y BGC, BGC Caerdydd a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i adolygu cyfleoedd ar y cyd. Mae'r cydweithio a welwyd drwy'r pandemig wedi dangos cryfder y dull hwn o weithio ar y cyd ar draws partneriaethau. Nododd FK ei fod yn cytuno â'r dull a gynigiwyd o ddatblygu'r Cynllun, ac y byddai'r amcanion a gynigiwyd yn galluogi bwrw ymlaen â blaenoriaethau presennol y BGC, a chyfleoedd am gamau a rhaglenni gwaith newydd ar y cyd. Nododd MC gefnogaeth i barhau â gwaith o'r Cynllun cyfredol i'r cynllun newydd, ond cododd bryderon ynghylch dealltwriaeth y gymuned o'r gwaith hwn. Nododd MC bryderon hefyd fod costau byw yn

<p>ffocws ar gyfer gweithdy'r dyfodol gan fod hyn yn broblem sy'n bodoli ar hyn o bryd. Eglurodd TB y bydd y thema costau byw yn galluogi'r BGC i archwilio nifer o broblemau a godwyd drwy'r Asesiad Llesiant, yn enwedig yr anghydraddoldeb ym Mro Morgannwg a'r Argyfwng Hinsawdd. Nododd TB y bydd esbonio'r trosglwyddiad o'r Cynllun cyfredol i'r Cynllun newydd yn her o safbwynt cyfathrebu, ond bod cyfleoedd i fod ychydig yn fwy creadigol wrth siarad â'r cyhoedd am waith y BGC. Croesawodd ME y trafodaethau a nododd y bydd yr amcanion a gynigir yn galluogi i'r argyfwng hinsawdd fod yn thema drawsbynciol.</p>	
<p><b>9. Lluio Adroddiad Blynyddol y BGC</b></p> <p>Esboniodd HM fod yn rhaid i'r BGC lunio Adroddiad Blynyddol erbyn mis Gorffennaf. Defnyddir dull tebyg wrth lunio'r Adroddiad Blynyddol hwn i'r dull a ddefnyddiwyd wrth lunio adroddiadau blaenorol, gan ganolbwyntio ar nifer o brosiectau allweddol y BGC, ac roedd y tîm ar hyn o bryd yn casglu'r newyddion diweddaraf gan bartneriaid. Y dull fydd cyflwyno cymaint o fanylion ag sy'n bosibl am y prosiectau hyn, gan gynhyrchu adroddiad cryno a deniadol ar yr un pryd.</p>	
<p><b>10. Y Diweddaraf am y Flaenraglen Waith</b></p> <p>Rhoddodd TB drosolwg o'r flaenraglen waith a chroesawu unrhyw awgrymiadau gan bartneriaid am eitemau i'w cynnwys ar yr agenda yn y dyfodol, a gofynnodd i bartneriaid gysylltu â TB neu HM.</p>	<p><b>HM</b></p>
<p><b>11. Unrhyw fater arall</b></p> <p>Eglurodd NM wrth y BGC mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf fel cadeirydd gan y byddai'n sefyll i lawr yn yr etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai.</p> <p>Dywedodd NM ei bod hi wedi bod yn bleser gweithio gyda phartneriaid a bodd y BGC wedi symud ymlaen â swm aruthrol o waith na fyddai ond wedi bod yn bosibl mewn partneriaeth. Mynegodd NM ddiolch i'r holl bartneriaid, i MB a weithredodd fel y cadeirydd pan nad oedd modd i NM gadeirio cyfarfodydd oherwydd gwaith i fynd i'r afael â'r pandemig. Diolchodd NM hefyd i'r tîm Strategaeth a Phartneriaeth hefyd am eu gwaith yn cefnogi'r BGC.</p> <p>Diolchodd FK i NM ar ran y bwrdd iechyd a phartneriaid y BGC am ei arweinyddiaeth a'i gyngor, nid yn unig drwy'r BGC ond hefyd drwy'r pandemig.</p>	
<p><b>12. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 8 Gorffennaf 2022, drwy Microsoft Teams</b></p>	